



HAVE
YOUR DWEUD
SAY EICH
DWEUD

DWEUD EICH DWEUD!

ar foderneiddio Gwasanaethau Gofal Oriau Dydd i bobl hÿn

Mae'r Ymgynghoriad yn dechrau ar: **14 IONAWR 2019**
ac yn **dod i ben am 5pm** ar: **8 EBRILL 2019**

Am ragor o wybodaeth ewch i www.rctcbc.gov.uk/ymgynggori
– bydd modd i chi gael manylion am y cynigion a llenwi holiadur.
Os oes angen copi caled o'r holiadur arnoch chi, cysylltwch â ni:

 **01443 425014**

 **gofaloriaudydd@rctcbc.gov.uk**

 **RHADBOST RSBU-HJUK-LSSS**, Carfan Materion Ymchwil ac
Ymgynghori, Y Pafiliynau, Cwm Clydach, CF40 2XX

2019

Mae'r llyfryn yma ar gael mewn iaith a diwyg gwahanol.
Fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi.

Os oes angen ein gwasanaeth eirioli arnoch chi, rhowch wybod i ni



RHONDDA CYNON TAF

Cyflwyniad

Ym mis Tachwedd 2018 cafodd cynigion ar gyfer moderneiddio gwasanaethau gofal oriau dydd eu hystyried gan Gabinet y Cyngor. Cytunwyd i gynnal ymgynghoriad 12 wythnos o hyd ar y cynnig mae'r Cabinet yn ei ffafrio.

Mae manylion y cynigion ar gyfer gwasanaethau gofal oriau dydd i'w gweld yn y llyfryn yma. Mae'r Cyngor yn eich gwahodd chi i ddweud eich dweud ar y cynigion eraill, yn ogystal â chyflwyno'ch sylwadau ar y cynnig y mae'r Cabinet yn ei ffafrio. Cewch chi nodi eich argymhellion eich hunain ar gyfer y newidiadau arfaethedig hefyd.

Manteisiwch ar y cyfle yma i ddweud eich dweud.

Cefndir

Mae moderneiddio gofal cymdeithasol i oedolion yn flaenoriaeth allweddol i Gyngor Rhondda Cynon Taf, yn unol â chynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar gyfer newid a gwella.

Mae pobl yn byw'n hirach ac mae'r hyn y mae pobl ei eisiau ac yn ei ddisgwyl o safbwynt gofal yn hwyrach yn eu hoes yn newid. Mae angen cymorth ar gyfer anghenion cymhleth fel dementia ar ragor o bobl, ac mae rhagor o bobl eisiau byw'n annibynnol gartref. Yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo lunio'r gwasanaethau y mae'n eu darparu yn fewnol mewn modd sy'n bodloni anghenion presennol ac yn y dyfodol.

Trwy ddefnyddio model canolfannau dydd, mae gwasanaethau oriau dydd y Cyngor wedi darparu cymorth ar ffurf draddodiadol i bobl hŷn ers blynnyddoedd lawer, er mwyn iddyn nhw fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae llawer o'r canolfannau dydd yma yn hen erbyn hyn – nid yn unig ydy cyflwr yr adeiladau yn dirywio, ond mae eu dyluniad a'u pwrpas sylfaenol yn anaddas bellach. O ganlyniad i hyn, dydy pob canolfan ddim yn cynnig amgylchedd addas i ddarparu gwasanaeth modern.

Mae angen dull newydd o weithredu. Dylai hyn fod yn fwy cyson â chylch gwaith ehangach yn unol â gofynion statudol newydd a dylai ddarparu ymateb gwell, cydlynol ac integredig i anghenion gofal a chymorth trigolion.

Wrth wraidd y cynigion mae cynllun buddsoddi gwerth £50 miliwn i ddarparu gwelyau ychwanegol ar draws Rhondda Cynon Taf. Bydd cyfle hefyd i greu canolfannau cymuned a darparu cyfleusterau a gwasanaethau mewn gofodau aml-ddefnydd. Bydd y rhain yn fwy addas ar gyfer darparu gwasanaethau oriau dydd i bobl hŷn na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd trwy fodel canolfannau oriau dydd traddodiadol. Mae cyfleoedd o'r fath i greu canolfannau cymuned a lleihau'r angen am ganolfannau oriau dydd traddodiadol i bobl hŷn yn cael eu hadolygu yn rhan o'r rhaglen datblygu gofal ychwanegol.

Mae rhaid inni ddarparu gwasanaethau mewn modd gwahanol wrth inni annog rhagor o bobl i fod mor annibynnol a hunangynhaliol â phosibl. O ganlyniad bydd modd i'n gwasanaethau ganolbwyntio ar y rhai sydd wir eu hangen. Felly, rydyn ni wedi cynnal adolygiad o ofal oriau dydd i bobl hŷn.

Y Sefyllfa Bresennol

Mae gwasanaethau oriau dydd presennol i bobl hŷn yn Rhondda Cynon Taf yn cael eu darparu mewn canolfannau oriau dydd traddodiadol, sy wedi'u lleoli mewn adeiladau. Ar hyn o bryd mae gwasanaethau oriau dydd Gofal Cymdeithasol i Oedolion ar gyfer pobl hŷn ag anghenion gofal wedi'u hasesu yn cael eu darparu mewn 5 Canolfan Oriau Dydd:

- Canolfan Oriau Dydd Tonyrefail, Tonyrefail
- Canolfan Oriau Dydd Trecynon, Aberdâr
- Canolfan Oriau Dydd Riverside, Pontypridd
- Canolfan Oriau Dydd Bronllwyn, Y Gelli
- Canolfan Oriau Dydd Ferndale House, Glynrhedynog

Mae gan y canolfannau oriau dydd 25 o leoedd ar gael bob dydd ac eithrio Ferndale House lle mae gofod cyfyngedig yn golygu bod lle i 11 bob dydd. Mae'r canolfannau ar agor 5 diwrnod yr wythnos rhwng 9.00am a 4.00pm gyda'r mwyafrif o bobl yn eu defnyddio rhwng 10.30am a 3.30pm. Dydyn nhw ddim ar agor ar benwythnosau. Fel arfer mae cyfartaledd o 75% o'r lleoedd yn cael eu defnyddio. Mae hyn yn golygu fod canran uchel o'r lleoedd ddim yn cael eu defnyddio.

Dydy'r canolfannau ddim ar agor i'r gymuned yn gyffredinol ac maen nhw'n cael eu defnyddio gan bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth wedi'u hasesu yn unig. Mae nifer gyfartalog y bobl sy wedi'u cofrestru gyda'r gwasanaethau oriau dydd wedi gostwng o tua 60% dros y 5 mlynedd diwethaf.

Rydyn ni'n rhagweld y bydd y galw cyffredinol am y canolfannau hyn yn parhau i ostwng ymhellach, ynghyd â nifer y bobl sy'n dod i'r canolfannau. Serch hynny, mewn ffordd debyg i ofal preswyl, mae darpariaeth gwasanaeth oriau dydd hefyd yn elfen bwysig o'r ystod o wasanaethau sy wedi'u comisiynu a'u darparu ar gyfer pobl hŷn gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion yn Rhondda Cynon Taf.

Fel Cyngor, yn 2019, mae gyda ni ddyletswydd i fyfyrion ar y model presennol yma a gofyn i ni ein hunain a yw e'n adlewyrchu anghenion a dyheadau ein poblogaeth gyfredol, a'r cenedlaethau i ddod hefyd.

Y Cynnig mae'r Cabinet yn ei ffafrio


Yn dilyn yr adolygiad o wasanaethau gofal oriau dydd i bobl hŷn, cafodd dau gynnis eu llunio. Y cynnis roedd y Cabinet yn ei ffafrio ar gyfer ymgynghori oedd:

Cynnig 2: Dadgomisiynu gwasanaethau oriau dydd y Cyngor yn raddol yn rhan o raglen drawsnewid wedi'i chynllunio yn unol â'r model gwasanaeth newydd arfaethedig

Mae'r Cyngor wedi cytuno ar y cynnis yma fel yr un mae'n ei ffafrio yn dilyn adolygiad annibynnol o fodel presennol y gwasanaethau oriau dydd. Byddai'r cynnis yn ei gwneud yn ofynnol i bob defnyddiwr y gwasanaeth oriau dydd gael ei asesu a'i gefnogi yn ôl yr angen. Byddai cynllun yn ei le i drosglwyddo rhai pobl sy'n derbyn gofal oriau dydd, gyda chymorth ac asesiadau ar waith i'w cynorthwyo gyda newid ac i fodloni eu dewis lle bo hynny'n bosibl, yn unol â'r rhaglen datblygu gofal ychwanegol.

Mae'r cynnis yma yn cael ei ffafrio am y rhesymau canlynol:

- Mae oedran a dyluniad gwreiddiol adeiladau ein 5 canolfan oriau dydd traddodiadol presennol yn golygu nad ydyn nhw'n cynnis amgylchedd addas i ddarparu gwasanaeth modern. Trwy'r model canolfannau oriau dydd mewn adeiladau, rydyn ni wedi darparu dull traddodiadol o gymorth ers blynyddoedd lawer i bobl hŷn i fodloni eu hanghenion gofal a chymorth a rhoi'r cyfle iddyn nhw aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.
- Yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), mae angen i fodolau gwasanaeth wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael a chanolbwyntio yn fwy ar atal, ymyrraeth gynnar a galluogi, er mwyn rhoi gwell cymorth i bobl hŷn i aros gartref yn hirach.
- Byddai'r model newydd yn rhoi'r cyfle i drawsnewid y gwasanaeth i ddarparu cyfleoedd oriau dydd gwell a chyfrannu at ddatblygu gwasanaeth oriau dydd sydd â'r gallu i gwrdd ag anghenion a dyheadau newidiol pobl hŷn yn Rhondda Cynon Taf yn well. Byddai'n cynnwys y pedair elfen allweddol sy wedi'u nodi isod:



Yn rhan o'r model newydd, mae'r Cyngor am newid ei fodel gwasanaeth oriau dydd i bobl hŷn i ganolbwyntio'n fwy ar ddarparu gwasanaethau i'r rhai sydd ag anghenion gofal cymhleth. Golyga hyn, yn y dyfodol, y byddai ein gwasanaethau oriau dydd i bobl hŷn dim ond yn rhoi cymorth i'r rheiny sydd ag anghenion gofal cymhleth ac felly byddai angen llai o gapasiti.

Trwy ganolbwyntio ar wasanaethau oriau dydd i'r rheiny ag anghenion cymhleth, y gobaith yw y bydden ni'n darparu gwasanaeth o ansawdd gwell i bobl ag anghenion cymhleth. Bydden ni'n gallu arbenigo ar yr anghenion sydd gan bobl oherwydd byddai modd inni ddatblygu a gwella sgiliau ein staff i ganolbwyntio ar ddarparu'r gwasanaeth arbenigol yma. Mae'n anodd gwneud hyn ar hyn o bryd oherwydd yr ystod o anghenion cymhleth a'r rheiny sy ddim yn gymhleth.

Byddai pobl ag anghenion sy ddim yn cael eu hystyried yn rhai cymhleth yn cael cymorth a byddai eu hanghenion yn cael eu bodloni mewn ffyrdd eraill trwy gynyddu'r gweithgareddau sydd ar gael a chyfraniad y gymuned, gydag ystod ehangach o wasanaethau a chydlynu yn yr ardal leol ar gyfer rhoi a derbyn cymorth.

Cynigion eraill

Cynnig 1: Parhau â'r trefniadau presennol – Dim newid

Byddai lleiafswm o amharu ar y rheiny sy'n derbyn gofal oriau dydd.

Dydy'r cynnig yma ddim yn cael ei ffafrio oherwydd dydy parhau â gwasanaethau fel y maen nhw ddim yn bosibl. Mae hyn oherwydd pwysau demograffig ac ariannol, a blaenoriaethau strategol sy wedi'u nodi uchod.

Mae rhagor o fanylion am y cynigion arfaethedig i'w gweld ar y wefan:
www.rctcbc.gov.uk/ymgynghori

HOLIADUR

Mae'r holiadur yma yn gofyn ichi feddwl am ddarpariaeth fewnol Gofal Oriau Dydd Cyngor Rhondda Cynon Taf. Mae'n rhan o'r gwaith i gynllunio ar gyfer dyfodol y gofal hirdymor y mae'r Cyngor yn ei gomisiynu i bobl hŷn. Hoffen ni ymgynghori ar y cynigion arfaethedig sy wedi'u cyflwyno ar gyfer dyfodol darpariaeth fewnol y Cyngor.

Darllenwch y manylion llawn yn y pecyn gwybodaeth cyn llenwi'r holiadur.

Rhaid dychwelyd pob holiadur wedi'i lenwi erbyn 5pm ar 8 Ebrill 2019

Sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol

Sail gyfreithiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer prosesu eich gwybodaeth o dan y gyfraith diogelu data yw ei rwymedigaeth gyfreithiol i ymgynghori ar newidiadau i wasanaethau. Bydd ymatebion yn cael eu trin yn gyfrinachol a byddan nhw'n ymddangos yn ddienw yn yr adroddiad terfynol.

Am ragor o wybodaeth am sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth, edrychwch ar Hysbysiadau Preifatrwydd y Gwasanaeth Ymgynghori a'r Gwasanaeth Gofal Preswyl (Oedolion) a pholisi Diogelu Data'r Cyngor, neu cysylltwch â'r Garfan Ymgynghori – ymgynghori@rctcbc.gov.uk

C1. Ydych chi'n:

- Defnyddiwr gofal oriau dydd
- Perthynas / Partner / Cyfaill i ddefnyddiwr gofal oriau dydd
- Eiriolwr ar gyfer defnyddiwr gofal oriau dydd
- Aelod o'r cyhoedd
- Aelod o staff
- Arall (*nodwch*):

C2. Ydy'ch barn chi'n ymwneud ag unrhyw wasanaeth gofal oriau dydd yn arbennig?

- Canolfan Oriau Dydd Trecynon, Aberdâr
- Canolfan Oriau Dydd Riverside, Pontypridd
- Canolfan Oriau Dydd Bronllwyn, Y Gelli
- Canolfan Oriau Dydd Ferndale House, Glynrhedynog
- Canolfan Oriau Dydd Tonyrefail, Tonyrefail

Y Cynnig sy wedi'i Argymhell

Cynnig 2: Dadgomiynu gwasanaethau gofal oriau dydd y Cyngor yn raddol yn rhan o raglen drawsnewid wedi'i chynllunio yn unol â'r model gwasanaeth newydd arfaethedig - dyma'r cynnig sy'n cael ei ffafrio

Byddai hyn yn caniatáu i'r gwasanaeth ddarparu cyfleoedd gwell yn ystod oriau dydd a chyfrannu at ddatblygu gwasanaeth oriau dydd sydd â'r gallu i gwrdd ag anghenion a dyheadau newidiol pobl hŷn Rhondda Cynon Taf yn well.

Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr y gwasanaeth oriau dydd gael eu hasesu a'u cefnogi yn ôl yr angen.

C3. Ydych chi'n cytuno â Chynnig 2?

Ydw (Cytuno)

Nac Ydw (Anghytuno)

Ddim yn Gwybod

Rhowch unrhyw sylwadau ar gyfer yr ateb yma:

.....

.....

.....

.....

.....

.....

C4. Sut byddai'r cynnig sy wedi'i argymhell yn effeithio arnoch chi neu'ch teulu?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Cynigion eraill

Cynnig 1: Parhau â'r trefniadau presennol – Dim newid

C5. Ddylai hyn fod y cynnig i'w ffafrio, yn eich barn chi?

Dylai

Na Ddylai

Ddim yn Gwybod

Rhowch unrhyw sylwadau ar gyfer yr ateb yma:

.....

.....

.....

.....

.....

.....

C6. Os oes gyda chi unrhyw sylwadau eraill hoffech chi i ni eu hystyried, neu gynigion/argymhellion eraill, nodwch nhw isod.

.....

.....

.....

.....

Gwybodaeth amdanoch chi

C7. Rhyw.....

C8. Oedran.....

C9. Cod post

C10. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut mae ei benderfyniadau yn effeithio ar bobl oherwydd efallai bod nodweddion penodol gyda nhw. Mae'r cwestiwn hwn yn ddewisol. Am ragor o wybodaeth am sut rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth yma, edrychwch ar hysbysiad preifatrwydd 'Cydraddoldeb ac Amrywiaeth' ar wefan y Cyngor.

Sut byddai'r cynnig/cynigion yma yn effeithio arnoch chi o safbwynt y canlynol:

Rhywedd, Oedran, Ethnigrwydd, Anabledd, Rhywioldeb, Crefydd/Cred, Hunaniaeth o ran rhywedd, Perthynas, Beichiogrwydd, Dewis iaith.

.....
.....
.....
.....
.....

C11. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg ac o ganlyniad mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut mae ei benderfyniadau'n effeithio ar y Gymraeg.

Rhowch wybod i ni:

- Sut byddai'r cynnig/cynigion, yn eich barn chi, yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'i hyrwyddo (Cadarnhaol neu Negyddol), ac a yw'r cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd?
- Sut byddai modd estyn effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

.....
.....
.....
.....
.....

Os ydych chi'n **fodlon i ni gysylltu â chi** er mwyn trafod eich ymateb i'r holiadur yma, nodwch eich manylion cyswllt:

Enw:

E-bost/Rhif ffôn:

Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad yma.

Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn prosesu'r wybodaeth rydych chi wedi'i darparu yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018. Mae'n bosibl y caiff yr wybodaeth ei defnyddio at ddibenion ystadegol, ond bydd unrhyw fanylion personol yn ddiennw.

Cliciwch ar Cyflwyno/Submit i gwblhau'r holiadur ar-lein. Os ydych chi'n llenwi copi papur, anfonwch e i:

Rhadbost RSBU-HJUK-LSSS,

Carfan Materion Ymchwil ac Ymgynghori

Y Pafiliynau

Cwm Clydach

Tonypandy

CF40 2XX

Neu anfonwch eich barn gyffredinol aton ni drwy e-bost: gofaloriaudydd@rctcbc.gov.uk